

PWYLLGOR SAFONAU

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 23 Mehefin, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: P. Hallett, R. Hendicott, G. Watkins (Aelodau Annibynnol) ac
Cynghorwyr R.M. Birch, J.E. Charles a C.P. Franks (Cyngor Bro Morgannwg).

EITEM AGENDA 1. PENODI CADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – R. Hendicott yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd am y flwyddyn
Ddinesig.

EITEM AGENDA 2. PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – L. Tinsley yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd am y flwyddyn
Ddinesig.

AGENDA ITEM 3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan R. Alexander a L. Tinsley.

EITEM AGENDA 4. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17
Mawrth, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 5. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 6. CAIS AM GANIATÂD (SW/PGCD) –

PENDERFYNWYD -

(1) BOD goddefebau fel y'u nodir yn yr atodlen isod yn cael eu caniatáu hyd at
ddyddiad yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf:

Aelod sy'n Gofyn am Oddefeb	Paragraff(au) Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau (Caniatáu Goddefebau) (Cymru) 2001 - y rhoddir goddefebau oddi tanynt ac y gwnaed cais amdanynt	Penderfyniad
Y Cynghorydd J. Aviet	(a), (c), (ch), (d) a (dd)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri
Y Cynghorydd B. Brooks	(a), (c) a (ch)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri.
Y Cynghorydd J.E. Charles	(a), (c) a (ch)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri.
Y Cynghorydd Mrs P. Drake	(a), (c) a (ch)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri
Y Cynghorydd E.J. Goodjohn	(a), (c) a (ch)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro

		Morgannwg a Chyngor Tref y Barri
Y Cyngorydd E. Goodjohn	(a), (c) a (ch)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri
Y Cyngorydd H.C. Hamilton	(ch), (d) ac (dd)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â'r adolygiad o delerau ac amodau gweithwyr y Cyngor o ystyried bod aelodau o'r teulu yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod.
Cyngorydd S.M. Hanks	(c) a (ch)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar Gynllun Datblygu Lleol Cyngor Bro Morgannwg a Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau wrth gael ei thrafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref Llanilltud Fawr.
Y Cyngorydd W.A. Hennessy	(a), (c), (ch), (d) ac (dd)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg wrth gael ei thrafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri
Cyngorydd C. Iannucci	(a), (c) a (ch)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri
Y Cyngorydd G. John	(ch) ac (dd)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio lle mae materion yn cael eu codi mewn perthynas â ffioedd a thaliadau chwaraeon yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref Llanilltud Fawr.

Y Cyngorydd G. John	(ch), (d) ac (dd)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar faterion sy'n codi o ran Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau a Chynllun Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd y Cyngor a Chyngor Tref Llanilltud Fawr.
Ms. R. Morteo	(ch), (d) ac (dd)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio pan fydd materion sy'n ymwneud ag Ysgolion Cynradd yr Eglwys yng Nghymru ym mhob un o gyfarfodydd y Cyngor yn cael eu trafod.
Y Cyngorydd S.M. Perkes	(a), (c) a (ch)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri
Y Cyngorydd N.C. Thomas	(ch), (d), (dd), (e) ac (ff)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio pan fydd materion sy'n ymwneud ag Ysgol Evenlode yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg.
Y Cyngorydd N.C. Thomas	(ch), (dd), (d), (e) ac (ff)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref Penarth pan fydd materion yn ymwneud â rhaglen ail-lunio Bro Morgannwg yn cael eu trafod.
Y Cyngorydd M.R. Wilkinson	(ch), (d) ac (dd)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â'r adolygiad o delerau ac amodau gweithwyr y Cyngor o ystyried bod aelodau o'r teulu yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod.
Y Cyngorydd M.R. Wilkinson	(c) a (ch)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar faterion yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri sy'n ymwneud â rhaglen ail-lunio gwasanaethau Cyngor

		Bro Morgannwg a'r Cynllun Datblygu Lleol pan fydd materion yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd y Cyngor.
Y Cynghorydd M.R. Wilkinson	(ch), (d), (dd), (e) ac (ff)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar faterion yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri lle codir materion (gan gynnwys cyllidebau) sy'n ymwneud ag ysgolion cynradd Gwenfo, Tregatwg ac Ysgol Uwchradd St Richard Gwyn.
Y Cynghorydd E. Williams	(e) ac (dd)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar faterion sy'n codi o ran Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau Cyngor Bro Morgannwg ac yng nghyfarfodydd y Cyngor a Chyngor Tref Llanilltud Fawr.

(2) BOD y ceisiadau hwyr canlynol sy'n ymwneud ag Ail-lunio gwasanaethau fel y'u nodir yn yr atodlen isod yn cael eu ccaniatáu hyd at ddyddiad yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf:

Aelod sy'n Gofyn am Oddefeb	Paragraff(au) Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau (Caniatáu Goddefebau) (Cymru) 2001 - y rhoddir goddefebau oddi tanynt	Penderfyniad
Y Cynghorydd L. Burnett	(ch), (d), (dd) and (e)	Rhoi caniatâd i siarad, pleidleisio ac aros mewn cyfarfodydd lle mae materion (gan gynnwys cyllidebau) yn cael eu hystyried mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Oakfield.
Y Cynghorydd C.A. Cave	(ch), (d), (dd) and (ff)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio mewn cyfarfodydd lle codir materion mewn perthynas â materion (gan gynnwys cyllidebau) yn

		ymwneud ag Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
Y Cynghorydd A.M. Collins	(a), (c), (ch), (dd) ac (e)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri
Y Cynghorydd A.M. Collins	(ch), (d), (dd) and (e)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar faterion yn ymwneud ag Ysgol Gwaun y Nant ac Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg.
Y Cynghorydd Dr I.J. Johnson;	(a), (c), (ch) ac (dd)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri
Y Cynghorydd H.M. Payne	(a), (c) a (ch)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri
Y Cynghorydd M. R. Wilson,	(ch), (e), (e), (e), (ff)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref Penarth pan fydd materion yn ymwneud ag ail-lunio'n cael eu trafod.

(3) BOD y defnydd o bwerau dirprwyedig y Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau mewn perthynas â chais y Cynghorydd Burnett am oddefeb yn Atodiad 2 i'r adroddiad yn cael ei nodi.

(4) BOD cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Safonau yn cael ei drefnu cyn toriad mis Awst i ystyried y ceisiadau hwyr (ac eithrio'r ceisiadau ail-lunio hwyr a dderbyniwyd fel y cyfeiriwyd atynt ym Mhenderfyniad 2 uchod) am oddefebau a dderbyniwyd ar ôl i'r agenda ar gyfer y cyfarfod gael ei hanfon ar 23 Mehefin, 2022.

(5) BOD holl Gynghorwyr Bro Morgannwg a Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned yn cael gwybod, os bydd angen ystyried unrhyw geisiadau pellach am

oddefeb yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau Arbennig, i'w trefnu cyn y toriad, bod yn rhaid i bob cais ddod i law cyn i'r agenda gael ei hanfon.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1a2) Cydymffurfio â'r rheoliadau a'r rhwymedigaethau ar gyfer rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio.

(3) O ystyried defnyddio pwerau dirprwyedig o dan Gyfansoddiad y Cyngor.

(4&5) O ystyried nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ar ôl i'r agenda gael ei hanfon ac ystyried unrhyw geisiadau pellach cyn i'r agenda gael ei hanfon.

EITEM AGENA 7. SYLWADAU GAN AELODAU ANNIBYNNOL O GYFARFODYDD PWYLLGORAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED (SW/PGCD)

–

PENDERFYNWYD -

(1) BOD yr adroddiad a'r adborth a gafwyd yn y cyfarfod mewn perthynas â'r ymweliad arsylwi a gynhaliwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau i Gyngor Cymuned Sili a Larnog yn cael eu derbyn.

(2) DYLLID nodi y bydd amserlen newydd o gyfarfodydd Cyngorau Tref a Chymuned yn cael ei pharatoi a'i hanfon dros e-bost at Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau er mwyn i sylwadau gael eu cynnal yn dechrau o fis Medi 2022.

(3) BOD yn cael ei dderbyn y gall y Swyddog Monitro ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn (Medi 2022 i Awst 2023) gynghori y dylai cyfarfodydd ychwanegol, penodol Cyngor Bro Morgannwg a Chyngorau Tref a Chymuned gael eu harsylwi.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1-3) Wedi ystyried yr arsylwadau a wnaed a rôl y Pwyllgor Safonau

EITEM AGENDA 8. ADRODDIAD ADBORTH YN DILYN HYFFORDDIANT AR Y COD YMDDYGIAD A FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL I GYNGHORWYR BRO MORGANNWG AC AELODAU LLEYG / CYFETHOLEDIG GAN Y SWYDDOG MONITRO A HYFFORDDIANT AR Y COD YMDDYGIAD A FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL I GYNGHORAU TREF A CHYMUNED GAN Y SWYDDOG MONITRO AC UN LLAIS CYMRU (SW/PGCD) –

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y diweddariad cynnydd mewn perthynas â'r hyfforddiant a gynhaliwyd gydag Aelodau Etholedig Cyngor Bro Morgannwg yn cael ei nodi.

(2) BOD y diweddariad ar yr hyfforddiant a gomisiynwyd ar gyfer Cyngorau Tref a Chymuned ym Mro Morgannwg gan y Swyddog Monitro yn cael ei nodi.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1-2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad.

EITEM AGENDA 9. CYFARFODYDD SWYDDOG MONITRO GYDA
CHLERCOD CYNGHORAU TREF A CHYMUNED (SW/PGCD) –

PENDERFYNWYD – BOD yr adroddiad mewn perthynas â chyfarfod y Swyddog Monitro gyda'r Clercod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2022 yn cael ei nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried y trafodaethau yn y cyfarfod ar 15 Mehefin 2022.

EITEM AGENDA 10. MATERION I'W HYSTYRIED: CYFARFOD AG
ARWEINWYR GRWPIAU, FFORWM SAFONAU CYMRU GYFAN, CYNNYDD O
RAN ARGYMHELLION ADRODDIAD RICHARD PENN, DIWEDDARIAD AR
YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR Y SAFONAU YMDDYGIAD
CANLLAWIAU STATUDOL A DATGANIADAU O DDIDDORDEB I
GYNRYCHIOLYDD Y CYNGOR CYMUNED AR Y PWYLLGOR SAFONAU
(SW/PGCD) –

PENDERFYNWYD -

(1) Y dylid gofyn i'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, wneud trefniadau i gyfarfod ag Arweinwyr Grwpiau, cyn y toriad, i drafod gofynion Adran 62 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor Safonau maes o law.

(2) DYLLID nodi y bydd diweddariad pellach yn cael ei ddarparu maes o law i'r Pwyllgor Safonau ynghylch sefydlu Fforwm Safonau Cymru Gyfan.

(3) YN dilyn y cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a grŵp bach o Swyddogion Monitro mewn perthynas ag ymgynghoriad rhagarweiniol y Fframwaith Safonau Moesegol (fel y cyfeirir ato yn yr adroddiad) cyflwynir adroddiad diweddar cynnydd pellach i'r Pwyllgor Safonau.

(4) BOD y cynnydd o ran cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r canllawiau statudol drafft ar Safonau Ymddygiad yn cael ei nodi.

(5) BOD y cynnydd o ran ceisio datganiadau o ddiddordeb gan Gyngorau Tref a Chymuned ym Mro Morgannwg gyda'r bwriad o benodi cynrychiolydd Cyngor Cymuned i'r Pwyllgor Safonau yn cael ei nodi.

(6) GAN FOD cyfnod y Cynghorydd Cuddy yn y swydd yn dod i ben fel cynrychiolydd y Cynghorwyr Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau, dylid anfon llythyr i fynegi gwerthfawrogiad y Pwyllgorau Safonau o'i wasanaeth a'i ymroddiad.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1-5) Er mwyn rhoi gwybod i Aelodau o'r cynnydd mewn perthynas â'r materion.

(6) Er mwyn cydnabod y gwasanaeth a ddarparwyd gan y Cynghorydd Cuddy a gwerthfawrogiad y Pwyllgor.

EITEM AGENDA 11. GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SW/PGCD) –

PENDERFYNWYD – Nodi cynnwys yr adroddiad, gan ystyried y byddai diweddariad ar yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac y byddai unrhyw faterion sy'n codi dan Ran II yr adroddiad yn cael eu hystyried dan Ran II yr agenda.

Rhesymau dros benderfyniadau

I hysbysu'r Aelodau o'r Pwyllgor.

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

EITEM AGENDA 13. GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SW/PGCD) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

PENDERFYNWYD – Nodi'r wybodaeth gyfrinachol a roddwyd gan y Swyddog Monitro yn y cyfarfod.

Rhesymau dros benderfyniadau

Wedi ystyried gohebiaeth a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon, gan nodi ei bod yn gyfrinachol ar hyn o bryd.